

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 08 Tachwedd 2021

## SL(6)066 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) (Rhif 2) 2021

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae gan rai tenantiaethau amaethyddol hawliau olynu. Yn yr achosion hyn, o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, gall perthynas agos i'r tenant ymadawedig neu'r tenant sy'n ymddeol, wneud cais i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol (ALT) am gyfarwyddyd ynghylch a oes gan y perthynas hawl i olynu'r denantiaeth. Mae un o'r profion i sefydlu hawl i olynu yn golygu bodloni'r ALT nad yw'r ymgeisydd eisoes yn meddiannu "uned fasnachol o dir amaethyddol" yn rhywle arall. Pe bai hyn yn wir, ni fyddai'r perthynas agos yn gymwys i gael olyniaeth awtomatig.

Mae'r [Gorchymyn](#) hwn yn nodi ffigurau ar gyfer incwm amaethyddol sy'n gysylltiedig ag amrywiol weithgareddau ffermio, ac a ddefnyddir i benderfynu a yw'r tir o dan sylw yn 'uned fasnachol o dir amaethyddol' ai peidio.

Y Gorchymyn sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2021 sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2019 a 11 Medi 2020. Bydd y Gorchymyn hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2020 a 11 Medi 2021.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Daliadau Amaethyddol 1986

**Fe'i gwnaed ar:** 22 Hydref 2021

**Fe'i gosodwyd ar:** 26 Hydref 2021

**Yn dod i rym ar:** 01 Rhagfyr 2021

